Cofnodion / Minutes to

Machynlleth Town Council Market Panel

6/7/22, 2pm, Vane Tempest Room.

Yn bresennol :- Cyng M Williams, Cyng J Paige, Mr Fergus Scott (Cynrychiolydd Masnachwyr y Farchnad), Mr Dewi Jones (Clerc y Dref)

Ymddiheuriad :- Cyng N McCarten

Dywedodd y Clerc gan nad oedd cworwm yn y cyfarfod, ni ellid gwneud unrhyw benderfyniadau. Manteisiwyd ar y cyfle i gael trafodaeth gyffredinol i helpu'r Clerc i ddeall y farchnad yn well.

Derbyniwyd yr e-byst canlynol gan y Clerc newydd

- Mr Keith Nixon, Swyddog Parcio Cyngor Sir Powys ynglŷn ag anghydfod rhwng masnachwr a siopwr. Roedd yr e-bost yn ailadrodd y pwyntiau yr oedd y Clerc dros dro wedi'u hesbonio pan oedd wedi siarad â'r siopwr ynghylch y mater o'r blaen.

- Gan aelod o'r cyhoedd yn holi a oedd stondin yn talu'n llawn am yr holl leoedd a gymerwyd ac yn codi pwyntiau iechyd a diogelwch. Trafododd y Clerc y rhain gyda Mr Fergus Scott a bydd hefyd yn eu codi'n uniongyrchol gyda deiliad y stondin cyn gynted â phosibl.

Cafwyd trafodaeth bellach am godi ymwybyddiaeth o'r Farchnad trwy gyfrif Facebook y Farchnad a gwell arwyddion. Cadarnhaodd y Clerc ei fod yn ymwybodol o'r angen i weithredu ar y materion hyn cyn y cyfarfod nesaf.

Present :- Cllr M Williams, Cllr J Paige, Mr Fergus Scott (Market Traders Rep), Mr Dewi Jones (Town Clerk)

Apologies Councillor N McCarten

Clerk advised that as the meeting was not quorate, no decisions could take place. The opportunity was taken to have a general discussion to help the Clerk better understand the market.

The following emails had been received by the new Clerk

- Mr Keith Nixon, Parking Officer at Powys County Council regarding a dispute between a trader and a shop keeper. The email repeated the points the acting Clerk had explained when he had previously spoken to the shop keeper regarding the matter.
- From a member of the public enquiring whether a stall paid in full for all the spaces taken and raising points of health and safety. The Clerk discussed these with Mr Fergus Scott and will also raise them directly with the stall holder at the earliest opportunity.

Further discussion took place about increasing awareness of the Market through a Market Facebook account and improved signage. The Clerk confirmed that he was aware of the need to act on these matters before the next meeting.